



Capel y Tabernacl, Medi'r 17eg, 2017



Mae croeso arbennig i ymwelwyr a ffrindiau sydd wedi ymuno â ni y bore 'ma. Mae'r oedfa dan ofal Geraint Rees gyda Bethan Roberts yn cyfeilio gydag Eleri Huws a Caroline Rees.

Y SULIAU NESAF

Medi 24 – y Parchg. Gethin Rhys
gyda Wyn Jones yn llywyddu,
cyfeilio Eleri Huws, croesawu
Gwerfyl a Tomos

Hydref 1af – Sul Pentref Efail Isaf,
cyfeilio Bethan

Hydref 8ed – Y Parchg Alan Pickard
a Wendy Reynolds,

Hydref 15 – Cwrdd Cynhaeaf
gyda'r Ysgol Sul a Huw M Roberts,
cyfeilio Sian

Hydref 22 – Emlyn Davies, Lowri
Roberts, cyfeilio Rhiannon

Hydref 29 – Y Parchg. Gethin Rhys
a Bethan Roberts, cyfeilio Eleri
Huws

**Bydd Teulu Twm yn ail-gychwyn am 5
heddiw!**

Pwyllgor Gofal

Bydd cyfarfod nesaf y pwyllgor gofal
bnawn heddiw am 5 yn y Capel. Mae
croeso mawr i aelodau newydd ymuno
â'r grŵp sydd yn gweithio fesul pentref i
ddiogelu gofal am ein gilydd a
chroesawu pobl newydd i'n plith

Safle'r Capel

Gallwch gysylltu â loan ar
07505 323299. Bwcio:
carolinerees2@hotmail.com

**Diolchiadau i'r criw a drefnodd
drip yr Ysgol Sul ddoe.**

ELUSENNAU 2017

Bydd crynodeb o waith yr
elusennau ddynodwyd ar gyfer
eleni yn ymddangos yn y daflen yn
ystod yr hydref.

PROSIECT GOFALWYR IFANC RHONDDA CYNON TAF

Mae'n braf gweld ein bod wedi
dewis yr elusen hon unwaith eto
eleni. Mae'r prosiect yn ceisio
adfer ychydig o'u plentyndod i
blant sy wedi gorfod tyfu i fyny
yn llawer rhy gyflym oherwydd
anawsterau teuluol sy'n eu gorfodi
i ofalu am riant methodig neu wael
ei iechyd. DEFNYDDI WCH
YR AMLENNI BROWN I DDANGOS
EICH CEFNOGAETH

Oes Gen Ti Dalent?

Yn dilyn y rhagbrofion yn ffair y
pentref, cynhelir y rownd derfynol
heno yn y Capel am 7 o'r gloch.
Awr o sioe, gyda 5 plentyn/grŵp
ifanc o'r pentre yn perfformio.

Y BANC BWYD

**Mae bocs o hyd ym mlaen y
capel.**

Bwrdd y Capel

**Cynhelir cyfarfod nesa'r bwrdd nos
Fawrth yn y Ganolfan am 7.30**

Hanner Marathon Elain

Pythefnos i heddi bydd Elain Haf yn rhedeg hanner marathon Caerdydd i gefnogi Barnado's. Mae hi hanner ffordd at ei chyfanswm codi arian, ond mae gwahoddiad i ni gyd fynd at:

<https://www.justgiving.com/fundraising/Elain-Haf>

**Cofiwch am y
wefan, www.tabernacl.org ac os
hoffech chi ragor o wybodaeth am
unrhyw agwedd, cysylltwch â:
Gwilym Huws: 07710 237327
gehpengwern@yahoo.co.uk**

**Cyhoeddiadau:
geraintrees@hotmail.com**

CYLCH CADWGAN

**Nos Fercher 15 Tachwedd am 8.00pm
VAUGHAN RODERICK
yn siarad ar y testun:
'William Williams Pantycelyn'
yn Y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf**

Nôl at fan **sefydlu'r capel hwn.....**
Noson acwstig agored yn y Carpenters
nos Sadwrn 7 Hydref am tua 8/8:30pm.
Dewch â chân, dewch ag offeryn,
dewch i ganu, neu dewch i fwynhau'r
gerddoriaeth. Dim PA, jyst awyrgylch
anffurfiol a chyfle i ganu a chyd-ganu!
Gwelwch Huw M.

**Oes penblwyddi arbennig gan rywrai yn
ystod yr wythnosau nesaf ?**

Merched y Tabernacl Dydd Mercher Medi 20



**Bydd y tenor ifanc Rhodri
Jones, enillydd Gwobr Ian
Stoutzker 2017, yn cyflwyno
rhaglen hyfryd o ganeuon
Vaughan-Williams, Strauss a
hefyd ffefrynnau Cymreig.
Cwrdd yn y Coleg Cerdd a Drama
am 11.45 i gael coffi a chlonc cyn
y gyngerdd sy'n dechrau am 1.15
ac yn gorffen am 2 o'r gloch.**



Does dim casgliad dillad ar gyfer Adref ar hyn o bryd, ond mae'r elusen yn chwilio am sachau cysgu a nwyddau hylendid i bobl ddigartref yn ardal Pontypridd. Os gallwch helpu, mae croeso i chi adael bagiau yn llofft y capel. Mae Adref bob amser yn hapus i dderbyn manion fel ornaments a thrugareddau eraill ar gyfer eu siop, a gallwch adael y rheiny yn llofft y capel hefyd.